# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD** | **16 RHAGFYR 2013** |
| **PWNC** | **CYNIGION CYCHWYNNOL AR GYFER CYLLIDEB 2014/15** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO** | **Y CYNGHORYDD HYWEL EIFION JONES** |
| **SWYDDOG(ION) ARWEINIOL** | **PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **CLARE WILLIAMS (EST. 2601)** |

**Rheswm am yr adroddiad:**

Fel bod modd i'r Pwyllgor Gwaith baratoi ei gynigion cychwynnol ar gyfer cyllideb 2014/15 i bwrpas ymgynghori arnynt.

## A – Rhagarweiniad / Cefndir / Materion

### 1. CEFNDIR

**1.1 Setliad Terfynol Grant Cynnal Refeniw (GCR)**
Rhyddhawyd y setliad GCR terfynol ar 11 Rhagfyr 2013. Ar gyfer y Cyngor, mae'r setliad ar gyfer 2014/15 wedi ei osod fel £96.432m. Fodd bynnag, o fewn y cyfanswm yma mae trosglwyddiadau i mewn i'r setliad fel rhan o'r Grant Gweinyddu Budd-daliadau Tai (£111k) a'r grant am y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (£458k). I bob pwrpas, mae'r newidiadau yma'n lleihau'r grant cyffredinol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru gan £4.253m, dros lefelau 2013/14, canran lleihad, blwyddyn ar flwyddyn, o 4.22%.

**1.2 Y Sefyllfa Gyfredol gyda'r Gyllideb Ddrafft**

**1.2.1** Cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith darged arbedion o £7.75m ar gyfer gwasanaethau yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf, sef ffigwr a bennwyd ar y pryd fel y bwlch tebgol yn y gyllideb ar gyfer 2014/15. Ar hyn o bryd ragwelir y bydd y bwlch cyllidebol am y cyfnod 2014/15 i 2018/19 o gwmpas £15m..

**1.2.2** Mae'r cynigion cyfredol ar gyfer y gyllideb ddrafft yn nodi bod arbedion o £7.416m wedi eu cyflwyno gan y gwasanaethau, er bod y ffigwr hwnnw yn cynnwys arbedion o £1.4m nad ydynt wedi eu cadarnhau hyd yma yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae rhagor o waith yn cael ei wneud i benderfynu faint o arbedion y gellir eu gwneud yn y maes gwasanaeth hwnnw.

**1.2.3** Mae'r cynigion cyfredol yn seiliedig ar y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y setliad terfynol gan Lywodraeth Cymru a ryddhawyd ar 11 Rhagfyr.

**1.3 Datganiad yr Hydref gan y Canghellor**

**1.3.1** Cyflwynodd y Canghellor ei Ddatganiad yr Hydref ar 6 Rhagfyr 2013 a oedd yn cynnwys diweddariad ar gyllid cyhoeddus a'r economi.

**1.3.2** Er nad oedd disgwyl i'r datganiad gael effaith sylweddol ar y cyhoeddiadau mewn perthynas â'r setliad ariannol terfynol ar gyfer 2014/15, roedd yn arwydd o'r cyfeiriad teithio.

**1.3.3** Yn gyffredinol roedd y Datganiad yn debyg i'r un a wnaed y llynedd ac roedd yn canolbwyntio ar newidiadau o ran twf a gostyngiadau yn y diffyg cyllidebol.

- Roedd llawer o sôn yn Natganiad y Canghellor ac Adroddiad y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol am y rhagolygon ar gyfer economi'r Deyrnas Unedig. Disgwylir i'r GDP godi 1.4% eleni a chynyddu'n raddol wedyn dros y 5 mlynedd nesaf.
- Rhagwelir cynnydd o £66.7m yn 2014/15 a £74m yn 2015/16 yng Nghyllidebau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, ym marn Llywodraeth Cymru nid yw Datganiad yr Hydref wedi gwneud rhyw lawer i newid y rhagolygon heriol ar gyfer cyllid cyhoeddus yng Nghymru a dim ond newid bychan fu i'r dyraniadau cyllidebol ar gyfer 2014/15 a 2015/16.
- Er nad oes unrhyw doriadau pellach wedi eu cynnig i gyllid llywodraeth leol, rhagwelir mwy o lymder. I gael gwared ar y diffyg, mae'r Canghellor wedi dweud y bydd toriadau gwirioneddol pellach yng ngwariant llywodraeth ganolog yn y Deyrnas Unedig hyd at 2017/18.
- Ni fydd y rhan fwyaf o fudd-daliadau Lles ond yn codi 1% y.f. Yr eithriadau yw pensiynau gwladol a budd-daliadau ar gyfer pobl anabl a gofalwyr y bydd eu budd-daliadau'n codi yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (2.7%).
- Cafwyd newyddion am drethi Annomestig yn Lloegr a Chymru lle bydd cynnydd yn cael ei gapio ar 2% y flwyddyn yn hytrach na chodi yn ôl y Mynegai Prisiau Adwerthu fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, er y bydd raid i orchymyn ychwanegol fynd trwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r trefniadau hynny ddod i rym yma. Bydd rhai adeiladau adwerthu yn Lloegr gyda gwerth ardrethol o hyd at £50,000 yn cael disgownt o £1,000 yn 2014/15 a 2015/16 a bydd disgownt o 50% yn eu trethi busnes i ddeiliaid newydd adeiladau a fu'n wag gynt am ddeunaw mis. Bydd raid i Lywodraeth Cymru gymeradwyo unrhyw gymorth ychwanegol ar gyfer Cymru.

### 1.4 Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

**1.4.1** Mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu bod £5.154m ar gael yn y cyhoeddiad dros dro ar gyfer y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn 2014/15. Mae ein cyfrifiadau ni yn dangos diffyg o rhwng £350k a £460k yn seiliedig ar waith modelu ariannol manwl h.y. yr arian y rhagwelir y bydd yn cael ei dalu dan y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn 2013/14, cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2014/15 a'r baich achosion mwy sefydlog yn y blynyddoedd diwethaf. Ein cyngor ni yw y dylai'r Awdurdod ragdybio diffyg o £400k o leiaf yn y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**1.4.2** Fodd bynnag, mae'r setliad terfynol wedi gwneud newid sylweddol i drefniadau cyllido'r cynllun yma, gan fod y grant penodol blaenorol o £458k wedi cael ei rolio i mewn i'r setliad GCR ei hun. Tra mae hyn yn rhoi rhywfaint o ystwythder ar y lefel o gefnogaeth y gellir ei gynnig dan y cynllun yma, mae'n newid yn andwyol y gefnogaeth gyfan mae'r Cyngor yn ei dderbyn o'r setliad grant.

## 2. Y GYLLIDEB DDISYMUD A'R BWLCH CYLLIDEBOL

### 2.1 Y Sefyllfa Gyfredol

**2.1.1** Yn dilyn rhyddhau'r setliad grant terfynol, mae'r bwlch cyllidebol cyfredol wedi ei ddiwygio i £7.661m ar gyfer 2014/15.

**2.1.2** Yn seiliedig ar y newidiadau uchod a'r gwaith sy'n cael ei wneud rhwng y Gwasanaeth Cyllid a'r deilyddion cyllideb, cynigwyd arbedion o £7.416m, sy'n cwrdd yn sylweddol y cyfan o'r bwlch cyllidebol o £7.774m a adroddwyd arno i'r Pwyllgor Gwaith ar 4 Tachwedd 2013 a'r rhagolwg diwygiedig yn codi o'r setliad grant terfynol. Bydd y balans rhwng y bwlch cyllidebol cyfredol a'r cynigion arbedion yn cael ei gwrdd gan ddefnydd o falansau petai arbedion pellach ddim yn cael eu hadnabod.

**2.1.3** Y prif feysydd y mae ansicrwydd yn eu cylch yn awr yw:-

- Derbyniadau y Dreth Gyngor a ddisgwylir;
- Dyfodol rhai grantiau refeniw y bydd datganiad yn cael ei wneud ynghylch eu dyfodol dros y misoedd nesaf;
- Gwerth cynnydd chwyddiant ar y gyllideb i'r dyfodol;
- Canlyniadau eleni ac effaith hynny ar lefel y balansau.

**2.1.4** Mae praeseptau, ardollau a chyfraniadau i gydbwyllgorau hefyd wedi eu cynnwys yn y gyllideb o ganlyniad i benderfyniadau gan eraill. Ni fydd manylion am y praeseptau a'r ardollau ar gael fel arfer tan ddiwedd mis Chwefror, ychydig cyn pennu'r gyllideb. Dangosir y praesept ar gyfer yr heddlu a'r cynghorau cymuned ar wahân ar bil y dreth gyngor. Yr eitemau eraill yw:-

- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Bwrdd Draenio Mewnol
- Gwasanaethau Crwner
- Bwrdd Cadwraeth Towyn Trewan

## 2.2 Twf yn y Gyllideb

**2.2.1** Nodwyd nifer o fidiau twf a phwysau ar wasanaethau ac mae angen i'r Aelodau roi sylw iddynt fel bod modd eu hymgorffori ar lefel briodol. Mae rhai eitemau twf wedi eu cynnwys o fewn y Cynllun Ariannol Tymor Canol ac mae'r rheini'n ymwneud â:-

| Pwysau | £000 | Sylwadau |
|---|---|---|
| Diogelwch i Ysgolion | 318 | Gweler paragraff 3.2 |
| Newid Demograffig | 500 | |
| Costau Cyllido Ychwanegol | 598 | LGBI, Tâl Cyfartal a £2m y flwyddyn o fenthyca digefnogaeth |
| Diwygio Lles | 77 | |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 400 | Baich ychwanegol yn sgil costau sy'n uwch na'r grant sydd ar gael |

**2.2.2** Wrth gwrs, bydd unrhyw arian twf sydd wedi ei gynnwys yng nghyllideb 2014/15 yn golygu y bydd angen darganfod mwy o arbedion neu wneud mwy o ddefnydd o gronfeydd wrth gefn ac/neu falansau cyffredinol. Gosodir allan y cynigion twf yn y gyllideb yn Atodiad C a gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo eu cynnwys yng nghyllideb 2014/15.

# 3. STRATEGAETH Y GYLLIDEB

## 3.1 Cynigion ar gyfer Arbedion

**3.1.1** Mae'r holl wasanaethau wedi cyflwyno cynigion ar gyfer arbedion o £7.416m a bennwyd. Mae'r gallu i gyflawni'r arbedion hyn yn gymysg, ac mae nifer o'r gwasanaethau wedi cael anhawster cynnig arbedion cynaliadwy ar gyfer 2014/15. Mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn cynnig arbedion effeithlonrwydd sy'n fwy realistig yn 2014/15 ac i'r dyfodol.

**3.1.2** Mae swyddogion gwasanaeth wedi gweithio gyda chyfrifwyr gwasanaeth i asesu pa mor ymarferol yw'r cynigion yn y tymor byr. Cymerwyd y pwysau ar y gyllideb hefyd i ystyriaeth.

**3.1.3** Mae'r cynigion ar gyfer arbedion i'w gweld yn Atodiad B fel rhestr hir o arbedion posib. Mae'r atodiad hefyd yn dangos y targed yn erbyn pob un o'r arbedion yn seiliedig ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canol a ystyriwyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf.

**3.1.4** Mae cynnig i ymgynghori ar y bwriad i ddarparu gwasanaeth Camerau Goruchwilio ar yr Ynys a bydd hun yn cyfrannu £177,000 i gynigion arbedion Gofal Cymdeithasol.

### 3.2 Cyllidebau Ysgolion

**3.2.1** Mae'r setliadau drafft a therfynol o Lywodraeth Cymru yn tybio y byddai cyllidebau dirprwyedig ysgolion yn cynyddu 0.9% neu tua £318k mewn termau ariannol.

- **Demograffeg** : Hwn yw effaith y newid mewn niferoedd disgyblion sydd yn ychydig iawn yn 2014/15;
- **Sefyllfa Ragamcanedig Cyllideb 2013/14 :** Fel yr adroddwyd i Aelodau cyn hyn, disgwylir i wariant yn 2013/14 fod o fewn y gyllideb;
- Yn flaenorol, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith targed arbedion o £1m ar 4 Tachwedd 2013. Bellach, mae hyn wedi ei leihau i £500k;
- Grant Amddifadedd – Nodwyd cynnydd o £720k ar gyfer 2014/15 ond mae hyn yn cynnwys y cynnydd o 0.9% yng Nghyllideb Ysgol Dirprwyedig hysbyswyd gan Lywodraeth Cymru yn y setliad grant dros dro.
- Cyllid Ôl 16 - Yn dilyn yr adolygiad o'r Adolygiad Cynllunio a Chyllid Ôl 16 yn Mai 2013, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno newidiadau polisi sy'n effeithio ar ddyraniadau cyllid ar gyfer disgyblion Ôl 16. Mae hyn yn golygu y bydd y dyraniadau cyllid ar gyfer 2014/15 yn seiliedig ar godiadau ar gyfer amddifadedd, teneuwyd y boblogaeth a chyfrwng Cymraeg ac ar ddarparu a gynlluniwyd yn seiliedig ar Werthoedd y Rhaglen. Ar gyfer Ynys Môn, y dyraniad a amcangyfrifwyd ar gyfer 2014/15 yw £2.711m o'i gymharu â £3.012m ar gyfer eleni, toriad o 10%. Hyn yw'r gostyngiad uchaf yng Nghymru ac mae wedi cael ei gapio ar 10% gyda chyfartaledd ar draws Cymru o 5.5%. Mae gwaith pellach yn cael ei wneud i ddyrannu'r gostyngiad cyllid hyn i'r Sector Uwchradd.

Mae cyllideb ddirprwyedig ragamcanedig 2014/15 (ac eithrio grantiau) yn £38.61m, sydd eto i'w gadarnhau'n derfynol.

## 4. ARIAN PETHAU ANNISGWYL, ARIAN WRTH GEFN A BALANSAU

### 4.1 Pethau Annisgwyl

**4.1.1** Mae'r prif dybiaethau ar gyfer pethau annisgwyl yn adroddiad mis Gorffennaf bellach wedi eu diweddaru fel a ganlyn :-

| Pethau Annisgwyl | £000 | Sylwadau |
|---|---:|---|
| Arfarnu Swyddi | 1,300 | Yn ariannu gwaith sy'n parhau a chyfraniad i'r Arian Wrth Gefn |
| Perfformiad | 190 | Yn cael ei gyllido o'r Grant Cytundeb Canlyniad. Cynigiwyd yr un lefel â 2013/14 |
| Cost Newid | 500 | Y lefel a awgrymir yn parhau heb newid o 2013/14 |
| Diswyddo | 900 | Gostyngiad o £100k o 2013/14 |
| Cyfraniad o'r balansau | (240) | Er mwyn gallu gosod cyllideb gytbwys |

### 4.2 Arian wrth Gefn a Balansau

**4.2.1** Mae'r adroddiad blynyddol ar arian wrth gefn a balansau yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn rhywle arall ar raglen y cyfarfod hwn. Bydd unrhyw newidiadau fydd yn cael eu hargymell gan Aelodau angen eu cynnwys yn y cynigion cyllidebol ar gyfer 2014/15.

**4.2.2** Mae'r egwyddorion sydd angen eu hystyried ar werth y balansau a ddelir gan y Cyngor, o ystyried beirniadaeth ddiweddar dros lefel y balansau a gedwir a wnaed gan lywodraeth y DU fel y ganlyn:-

- Mae arian wrth gefn yn gydran bwysig o gynllunio ariannol cynghorau ond ni fyddant yn datrys problemau ariannol yn y tymor hir. Ar eu gorau, nid ydynt ond yn prynu amser i alluogi i newidiadau gwasanaeth gael eu cynllunio i weithredu mewn ffordd drefnus. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'n bwysig bod cynghorau'n egluro'n berffaith glir i'r cyhoedd y camau a'r goblygiadau i wasanaethau y disgwylir eu gweld yn y tymor canolog a'r tymor hir;
- Dod i farn am arian wrth gefn - i ba raddau y dylid eu defnyddio neu eu gosod o'r neilltu i gyfarfod ag unrhyw atebolrwydd penodol neu na ragwelwyd yn y dyfodol – ni all ond cael ei wneud yn lleol o fewn sefydliadau unigol;
- Dylai cynghorwyr wneud y penderfyniadau lleol gan roi sylw i wybodaeth glir a llawn a chyngor a ddarperir gan Brif Swyddogion Cyllid.

## 5. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLOG A STRATEGAETH EFFEITHLONRWYDD

### 5.1 Strategaeth Ariannol Tymor Canolog

**5.1.1** Yn dilyn diweddaru'r strategaeth ar gyfer y tybiaethau mewn perthynas â chwyddiant, a hefyd nodi bwlch oddeutu £7.6m yn 2014/15 a £15m yn gyffredinol erbyn 2018/19, fe ddylai fod yn bosibl datlbygu cynlluniau i gael arbedion gwirioneddol dros y cyfnod 5 mlynedd i, cyn belled ag sy'n bosibl, ddiogelu llinell flaen. Er mwyn prynu amser i foderneiddio gwasanaethau, mae strategaeth yn ei lle i wneud cais am arian cyfalafu i daenu cost iawndal tâl cyfartal fel sy'n briodol; gohirio cyfraniadau i arian wrth gefn clustnodedig ar sail unwaith ac am byth a defnyddio arian ar gyfer pethau annisgwyl i gyllido'r rhaglen newid.

**5.1.2** Mae Ynys Môn yn cynllunio trawsnewid sylweddol i rai o'i wasanaethau, yn arbennig mewn ymateb i bwysau demograffig ac adroddiadau rheoleiddwyr ac i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau i'r dyfodol. Mae cynllunio ar gyfer trawsnewid yn cymryd amser, ac y mae lefel cyllideb sail a chapasiti'r Cyngor wedi gwneud hyn yn anodd i weithredu newidiadau mor gyflym ac y byddem yn ei obeithio.

**5.1.3** Bydd angen ailymweld ac adolygu'r penderfyniadau a wnaed wrth baratoi'r gyllideb ddisymud ac wedi hynny leihau'r 'bwlch', trwy gydol 2014/15, ac wrth baratoi'r gyllideb ar gyfer 2015/16, yn dilyn caniatáu amser pellach yn 2014/15 i weithredu newid trawsnewidiol.

### 5.2 Strategaeth Effeithlonrwydd

**5.2.1** Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r gwaith paratoi sy'n parhau ar gyfer cyllideb 2014/15. Ochr yn ochr â hyn fe geir rhaglen o waith sy'n edrych ar ddatblygu strategaeth effeithlonrwydd i barhau am 4 blynedd bellach i gyd-fynd â'r pwysau tymor hir sy'n wynebu'r Cyngor.

**5.2.2** Cynhaliwyd adolygiadau gwasanaeth ar yr holl wasanaethau ac y maent wedi cynnwys Penaethiaid Gwasanaeth, uwch swyddogion a gwleidyddion a swyddogion cyllid a pholisi. Mae'r adolygiadau gwasanaeth wedi ystyried cyfleon i sicrhau arbedion, effeithlonrwydd a chydweithredu allanol a chyfleon i weithio'n gallach a chydweithredu yn fewnol i wella darpariaeth.

**5.2.3** Mae'r arbedion, a all cael eu cyflawni gan eitemau fel gwell caffael a newidiadau gweithredol i gyflawni gwasanaethau, a gafwyd o'r ymarfer wedi eu tynnu at ei gilydd er mwyn darparu strategaeth effeithlonrwydd ddrafft fydd yn cael ei dwyn yn ôl gerbron yr Aelodau yn y flwyddyn newydd. Mae angen gwneud gwaith pellach i feintioli rhai o'r arbedion y gellir eu cael o drawsnewid ac i ddarparu'r lefel o arbedion fydd eu hangen am y 4 blynedd nesaf. Gwneir y gwaith yma fel mae rôl y Bwrddau Rheoli Rhaglen yn datblygu.

### 5.3 Trefniadau Rheoli Rhaglen

**5.3.1** Mae Byrddau Rhaglen yn gweithredu yn barod i ddarparu'r Cynllun Trawsnewid 3 blynedd. Bydd y Byrddau'n adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Trawsnewid.

**5.3.2** Mae gwaith y Byrddau Rhaglen yn allweddol gyda darparu'r arbedion parhaol sydd eu hangen dros y 4 - 5 mlynedd nesaf i gyfarfod â'r bwlch sy'n cael ei ragweld yn y gyllideb. Bydd y gwaith hwn angen adolygiad o sut y mae'r Cyngor wedi ei strwythuro ac yn gweithredu yn y dyfodol a bydd yn cael ei gefnogi gan uwch staff cyllid i sicrhau bod y cynigion i arbed yn gadarn a chyraeddadwy.

## 6. DISWYDDIADAU GWIRFODDOL

**6.1** Cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith i rolio allan cynllun diswyddiadau gwirfoddol yn ei gyfarfod 4 Tachwedd. Erbyn hyn, derbyniwyd ceisiadau ac fe'i asesir i sicrhau y byddent yn cyflawni arbedion parhaus a fydd yn cyfrannu tuag at darged arbedion cyffredinol y Cyngor.

## 7. OPSIYNAU AR GYFER PECYN CYLLIDEBOL ARFAETHEDIG

### 7.1 Cynnig Seiliol

**7.1.1** Yn seiliedig ar asesiad o'r cynigion arbed ac ar ymgynghoriad cychwynnol gyda swyddogion ac Aelodau, rwyf yn gallu awgrymu pecyn cyllidebol cychwynnol fel a ganlyn:-

| Sail | Comments |
|---|---|
| 5% cynnydd yn y Dreth Gyngor | |
| Yn darparu cyllid ar gyfer Arfarnu Swyddi ac yn lleihau cyfraniadau i arian wrth gefn clustnodedig | |
| Yn caniatáu ar gyfer £1.4m Cost Newid | |
| Darparu twf gwasanaeth o £276k | |
| Yn diogelu ysgolion | Gweler uchod |
| Yn cynyddu cyllid ar gyfer Plant y Gofelir Amdanynt ac yn darparu cynnydd demograffig ar gyfer gofal cymdeithasol | Yn unol â'r pwysau a welwyd mewn awdurdodau eraill |
| Yn cynnwys rhai arbedion cyfyngedig i wasanaethau corfforaethol, tra'n cydnabod yr angen i drawsnewid swyddogaethau swyddfa gefn | Yn galluogi arbedion mewn blynyddoedd i ddod |
| Gwasanaethau diwylliannol yn cael amser i resymoli'r gwasanaeth | Yn galluogi arbedion mewn blynyddoedd i ddod |
| Gofal Cymdeithasol Oedolion yn cael amser i drawsnewid gwasanaeth | Yn galluogi arbedion mewn blynyddoedd i ddod |

**7.1.2** Mae effaith y cynnig seiliol hwn yn cael ei ddangos yn Atodiad A gyda'r manylion am arbedion a thwf yn Atodiadau B a C yn olynol. Mae nifer o opsiynau ar gael yng nghyswllt y cynnig hwn ac fe ellir eu cynnwys yn y papur ymgynghori.

**7.1.3** Y symiau ar gyfer y Dreth Gyngor yw bod 1% o gynnydd yn cynhyrchu £291k. Mae hyn yn golygu bod pob 1% sy'n is na'r cynnydd 5% a gynlluniwyd yn y Dreth Gyngor yn ymestyn y bwlch cyllidebol rhyw £291k am y flwyddyn nesaf ac i'r dyfodol. Fy nghyngor i yw y dylai'r cynnydd yn y dreth barhau ar 5%, fel y cynlluniwyd

| Cynnydd y Dreth Gyngor | Cynhyrchu £ 000 | Ceiniogau'r wythnos annedd Band D |
|---|---|---|
| 5% | 1,455 | 94c |
| 4.5% | 1,310 | 84c |
| 4% | 1,164 | 76c |
| 3.5% | 1,019 | 66c |

## 8. MATERION AR GYFER PENDERFYNIAD

**8.1** Diweddaru'r gyllideb ddisymud ar gyfer eitemau ym mharagraffau 2 a 4.1 fel bod y bwlch cyllidebol yn dod yn £7.661m.

**8.2** Yn seiliedig ar y cynnig drafft ym mharagraff 6, gwahoddir y Pwyllgor Gwaith i gymeradwyo'r bidiau twf gwasanaethau yn Atodiad C fel rhan o'r pecyn cyllideb gychwynnol ar gyfer ymgynghori.

**B – Ystyriaethau**

Gweler uchod

**C – Goblygiadau ac Effaith**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cyllid / Adran 151** | Awdur |
| 2 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | |
| 3 | **Adnoddau Dynol** | |
| 4 | **Gwasanaethau Eiddo**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 5 | **Technoleg Cyfathrebu a Gwybodaeth** | |
| | **Cydraddoldeb**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 7 | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 8 | **Cyfathrebu**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 9 | **Ymgynghori**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 10 | **Economaidd** | |
| 11 | **Amgylcheddol**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 12 | **Trosedd ac Anhrefn**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 13 | **Cytundebau Canlyniadau** | |

**CH – Crynodeb**

Mae’r gyllideb ddisymud a gwybodaeth gyllidebol arall yn cael ei ddiweddaru ar gyfer y setliad terfynol ac ar gyfer eitemau eraill.

Yn dilyn ystyried y cynigion arbedion a thwf, mae pecyn cyllidebol cychwynnol wedi ei baratoi gyda nifer o opsiynau tebygol ar gyfer ymgynghori arnynt.

**D – Argymell**

Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo cynnig cyllideb gychwynnol ar gyfer ymgynghori ffurfiol ac yn dirprwyo i’r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) mewn ymgynghoriad gyda’r Deilydd Portffolio Adnoddau, yr awdurdod i gwblhau’r ddogfen ymgynghori ar y gyllideb.


**ENW AWDUR YR ADRODDIAD: CLARE WILLIAMS**
**TEITL SWYDD: PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)**
**DYDDIAD: 6 RHAGFYR 2013**


**Atodiadau:**

A - Crynodeb o’r Gyllideb Ddisymud Drafft a’r Bwlch Cyllidebol 2014/15
B - Arbedion Arfaethedig 2014/15
C - Crynodeb o’r Twf Arfaethedig 2014/15

**Papurau Cefndirol**

Setliad Dros Dro Llywodraeth Cymru Hydref 2013
Setliad Terfynol Llywodraeth Cymru Rhagfyr 2013

## ATODIAD A

**Crynodeb o'r Gyllideb Ddrafft 2014-15**

| - | 2013/14 Y Gyllideb Sylfaen Presennol | CATC Symudiadau a Nodwyd | Newidiadau Setliad Terfynol | Sefyllfa Ddisymud Drafft ar ôl y setliad terfynol | Cynigion Arbedion (gweler Atodiad B) | Twf Arfaethedig (gweler Atodiad C) | Cyllideb Arfaethedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cyfadran** | | | | | | | |
| Addysg Gydol Oes (Yn cynnwys Ysgolion) | 47,672 | 140 | | 47,812 | -1,501 | | 46,311 |
| Gwasanaethau Cymunedol | 31,933 | 203 | | 32,136 | -1,894 | | 30,242 |
| Datblygu Cynaliadwy | 21,347 | | | 21,347 | -2,969 | | 18,378 |
| Dirprwy Brif Weithredwr | 13,583 | | | 13,583 | -1,052 | | 12,531 |
| Corfforaethol a Craidd Democrataidd | 1,579 | | | 1,579 | | | 1,579 |
| **Cyfanswm** | **116,114** | **343** | **0** | **116,457** | **-7,416** | **0** | **109,041** |
| **Cyllid Corfforaethol** | | | | | | | |
| Rhyddhad Dewisol o'r Dreth | 50 | | | 50 | | | 50 |
| Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy | -355 | | | -355 | | | -355 |
| Ardollau | 3,219 | | | 3,219 | | | 3,219 |
| Cyllido Cyfalaf a Llog | 7,185 | 598 | | 7,783 | | | 7,783 |
| Cyfraniad at Cronfeydd Wrth Gefn | 500 | -500 | | 0 | | | |
| | **10,599** | **98** | **0** | **10,697** | **0** | **0** | **10,697** |
| **Arian wrth gefn wedi eu cario ymlaen o 2013/14** | | | | | | | |
| Diwygio Lles | 50 | -45 | | 5 | | | 5 |
| Arian Wrth Gefn Gwelliannau | 190 | | | 190 | | | 190 |
| Arian Wrth Gefn Cost Newid | 500 | | | 500 | | | 500 |
| Arian Wrth Gefn Diswyddiadau | 1,000 | -100 | | 900 | | | 900 |
| Arian Wrth Gefn Cyflogau a Graddio | 450 | | | 450 | | | 450 |
| Arian Wrth Gefn Cyffredinol | 350 | -298 | | 52 | | | 52 |
| | **2,540** | **-443** | **0** | **2,097** | **0** | **0** | **2,097** |
| **Is-Gyfanswm y Gyllideb Ddisymyd** | **129,253** | **-2** | **0** | **129,251** | **-7,416** | **0** | **121,835** |
| **Pwysau:** | | | | | | | |
| - Newid Demograffig | | 500 | | 500 | | | 500 |
| - Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | | 400 | | 400 | | | 400 |
| - Diwygio Lles | | 77 | | 77 | | | 77 |
| - Amddiffyn Ysgolion | | 318 | | 318 | | | 318 |
| Arian Wrth Gefn Arfarnu Swyddi | | 1,300 | | 1,300 | | | 1,300 |
| Arian Wrth Gefn Corfforaethol ar gyfer Chwyddiant | | 2,685 | | 2,685 | | | 2,685 |
| Cyfraniad oddi wrth Cronfeydd Wrth Gefn | | -240 | | -240 | | | -240 |
| | **0** | **5,040** | **0** | **5,040** | **0** | **0** | **5,040** |
| **Cyfanswm cyn Arbedion** | **129,253** | **5,038** | **0** | **134,291** | **-7,416** | **0** | **126,875** |
| **Ariennir gan:** | | | | | | | |
| Cyllid Allanol Cyfun | 100,227 | -3,795 | | 96,432 | | | 96,432 |
| Y Dreth Gyngor | 28,023 | 1,630 | | 29,653 | | | 29,653 |
| Grant Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 458 | -458 | | 0 | | | 0 |
| Grant Cytundeb Canlyniadau | 545 | | | 545 | | | 545 |
| **Cyfanswm Cyllideb** | **129,253** | **-2,623** | **0** | **126,630** | **0** | **0** | **126,630** |
| **Bwlch Cyllido** | **0** | **7,661** | **0** | **7,661** | **0** | **0** | **245** |

**ATODIAD B**

| Crynodeb o Arbedion Arfaethedig | £'000 |
|---|---|
| | |
| **Dysgu Gydol Oes** | |
| | |
| **Gwasanaeth Addysg** | |
| Addysg Canolog - Lleihau'r Grant i Neuaddau Pentref a Chanolfannau Cymuned | -20 |
| Addysg Canolog - Rhesymoli Clwbiau Ieuenctid | -24 |
| Addysg Canolog - Lleihau Cefnogaeth i'r Mudiad Meithrin a WPPA | -3 |
| Addysg Canolog - Gweithredu Argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen AAA ar gyfer Cefnogaeth i Integreiddio Gynradd | -80 |
| Addysg Canolog - Cynyddu Rent i Ddefnyddwyr Cymunedol yng Nghanolfan Ieuenctid Jesse Hughes | -1 |
| Addysg Canolog - Defnydd o Grant Cronfa Allanol ar gyfer Canolfan Ieuenctid Jesse Hughes | -20 |
| Addysg Canolog - Lleihau Cyllideb Hyfforddi Blynyddoedd Cynnar | -7 |
| Addysg Canolog - Cefnogaeth Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Canolfannau | -13 |
| Addysg Canolog - Lleihau Cefnogaeth Adeiladu Blynyddoedd Cynnar - Lleihau Cynnal a Chadw | -17 |
| Addysg Canolog - Lleihau Oed mynediad Ysgolion o Medi 2014 | -210 |
| Addysg Canolog - Lleihau Swyddi Wardeiniaid Cymunedol | -13 |
| Addysg Canolog - Cau Ysgol Llandonna | -82 |
| Addysg Canolog - Defnydd o Gweinyddiaeth Grant SEG | -35 |
| Addysg Canolog - Atal Darparu Pecynnau Ieuenctid | -7 |
| Addysg Canolog - Dyraniad Ychwanegol o Adnoddau Addysg o Grant Cefnogi Refeniw at gyfer Cynnydd yn y nifer Cymwys ar gyfer FSM | -469 |
| Gostyngiad yng Nghyllideb Ysgolion Dirprwyedig | -500 |
| **Cyfanswm** | **-1,501** |
| | |
| **Cyfanswm Dysgu Gydol Oes** | **-1,501** |
| | |
| **Dirprwy Prif Weithredwr** | |
| | |
| **Gwasanaethau Canolog** | |
| Refeniws a Budd-daliadau - Newidiadau i Weinyddiaeth Costau Llys | -23 |
| Refeniws a Budd-daliadau - Dileu Swydd Wag Cyfrifydd Incwm o'r Gyllideb | -24 |
| Cyllid – Newidiadau staff | -50 |
| Cyllid - Cefnogaeth Ail-strwythuro Cyfrifeg | -11 |
| Cyllid - Ail-negodi Cytundeb Arian Parod yn cael ei gludo | -12 |
| Cyllid - Atal cynhyrchu taflen Y Dreth Gyngor | -5 |
| Cyllid - Gostwng Cyllideb Printio ag Offer Swyddfa | -25 |
| Cyllid - Gostwng Cyllideb Partneriaeth Caffaeli Gogledd Cymru | -18 |
| Cyllid - Gostwng Cyllideb Offer Cyfrifiadurol | -20 |
| Cyllid - Gostwng Cyllideb Trwyddedau Cyfrifiadur (Hen System Gyllid) | -7 |
| Cyllid - Gostwng Cyllideb Treuliau Teithio | -10 |
| Cyllid - Arbedion Effeithlonrwydd Arall | -7 |
| TGCh - Lleihau Costau Staffio a Gweithredu | -114 |
| Prif Weithredwr - AD Lleihau Cyllideb Hyfforddi Canolog | -39 |
| Prif Weithredwr - AD Dileu Swydd Gweinyddol Datblygu Gweithlu | -20 |
| Prif Weithredwr - Gostwng Mentrau Iechyd a Diogelwch Corfforaethol | -5 |
| Prif Weithredwr - Incwm o Prynu Gwyliau Blynyddol | -5 |
| Cyfreithiol - Cyfuno Rheolaeth Gwasanaethau Pwyllgor a Sgriwtini | -35 |
| CDC - Arbedion Lwfans Aelodau | -88 |
| CDC - Lleihau Cyllideb ar gyfer Gweithgareddau Dinesig a Seremonïol | -24 |
| Cyfreithiol - Dileu Swydd Wag, Swyddog Sgriwtini | -36 |
| Polisi - Lleihau Cyllideb Sioe Môn | -11 |
| Polisi - Adolygu Strwythr Staff ym Mholisi, Gwasanaethau Aelodau a'r Unedau Cefnogi Busnes | -75 |
| **Cyfanswm** | -664 |
| | |
| **Corfforaethol** | |
| Penaethiaid Gwasanaeth | -138 |
| Cynnydd yn Grant Cefnogi Refeniw mewn perthynas â Gwasanaethau Cymdeithasol | -250 |
| **Cyfanswm** | **-388** |
| | |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm Dirprwy Prif Weithredwr** | **-1,052** |
| | |
| **Datblygu Cynaliadwy** | |
| | |
| **Cynllunio** | |
| Lleihau Cyflenwadau a Gwasanaethau | -5 |
| Ail-Strwythuro Rheolaeth Adeiladau - Lleihau staff o un swydd | -25 |
| Ail-Strwythuro Rheolaeth Adeiladau - Integreiddio â Gwynedd | -15 |
| Cyflwyno e-Gynllunio | -20 |
| Incwm o waith yn gysylltiedig â Rhaglen Ynys Ynni | -75 |
| Gofodau Agored - Lleihau gwariant ar Cefn Gwlad ac Arfordir | -3 |
| **Cyfanswm** | **-143** |
| | |
| **Gwarchod y Cyhoedd** | |
| Ail-Strwythuro Gwarchod y Cyhoedd | -105 |
| Incwm o waith yn gysylltiedig â Rhaglen Ynys Ynni | -5 |
| Lleihau Cyflenwadau a Gwasanaethau | -10 |
| Cynyddu Ffioedd a Chostau | -45 |
| **Cyfanswm** | **-165** |
| | |
| **Gwastraff** | |
| Lleihau costau Adeiladau a Thrafnidiaeth yng Ngorsaf Trosglwyddiad Penhesgyn | -50 |
| Lleihau Cyllideb Ôl-Ofal yn Ardal 2 Penhesgyn | -20 |
| Cyllideb gwaith Adain Gwastraff Diwygiedig | -95 |
| Dulliau Diwygiedig o Gasglu Gwastraff o Ebrill 2014 | -215 |
| Ariannu Pryniant Biffa o gerbydau newydd | -50 |
| Gostyngiadau Staff | -58 |
| Lleihau Tunelledd Gwastraff Gweddilliol | -140 |
| Diwygio Darpariaeth Cyfleusterau Cyhoeddus | -104 |
| Lleihau Goramser Penhesgyn | -20 |
| **Cyfanswm** | **-752** |
| | |
| **Eiddo** | |
| Ail-strwythuro Timau Eiddo | -180 |
| Rhesymoli Llety Swyddfa | -34 |
| Gostyngiad yn Lwfansau Car a Theithio | -35 |
| Gostyngiad yn Cynnal a Chadw Stadau Diwydiannol ag Eiddo Amrywiol | -31 |
| Gostyngiad yng Nghostau Contractau Glanhau | -40 |
| Gostyngiad yn Gweinyddol Cynnal a Chadw Adeiladau | -39 |
| Gostyngiad yng Ngwariant Amrywiol, Adeiladau Gweinyddol | -5 |
| Gostyngiad mewn Staffio Tymhorol Arforol | -15 |
| Gostyngiad yng Nghynnal a Chadw Arforol | -30 |
| Incwm Arforol | -5 |
| Cynnydd yn Incwm Rentiau Stadau Diwydiannol | -57 |
| **Cyfanswm** | **-471** |
| | |
| **Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | |
| Rheolaeth Fflyd: Amnewid Cerbydau diesel am gerbydau LPG | -15 |
| Codi Ffioedd Parcio | -100 |
| Llai o Wasanaethau Bws | -89 |
| Gostyngiad yng Nghyllideb Goleuo Stryd | -200 |
| Gostyngiad yn Staffio | -129 |
| Llai o Niferoedd patrôliau Croesfan Ysgolion | -25 |
| Gostyngiad yn Nghynnal a Chadw Priffyrdd | -475 |
| Gostyngiad yn Traffig a Hawliau Tramwy Cyhoeddus | -25 |
| **Cyfanswm** | **-1,058** |
| | |
| **Datblygu Economaidd** | |
| Cyllideb Gweithredol | -85 |
| Cyllideb Staffio | -54 |
| **Cyfanswm** | **-139** |
| | |
| **Hamdden** | |
| Cyllideb Gweithredol | -41 |
| Cyllideb Staffio | -106 |
| Mewnbynnu Cyllidebau Incwm i Gwrdd a Derbynnebau Cyfredol | -74 |
| Cynnydd Ychwanegol Incwm o 2% ar gyfer Ffioedd a Chostau | -20 |
| **Cyfanswm** | **-241** |
| | |
| **Cyfanswm Datblygu Cynaliadwy** | **-2,969** |
| | |

| | |
|---|---|
| **Cymuned** | |
| | |
| **Tai** | |
| Adlinio Cyllideb â CRT | -52 |
| Gostyngiad yn nefnydd o Ymgynghorydd Tai Fforddiadwy | -15 |
| Cyfraniad Landlordiad Cymdeithasol Corfrestiedig tuag at gostau gweinyddu'r Cofrestr Dai Cyffredin | -15 |
| Tai - Rhewi Swydd Swyddog Ymwelydd Tai | -15 |
| Tai - Rhewi Swydd Opsiynnau Tai (Digartref) | -10 |
| Tai - Lleihau Costau Gwely a Brecwast drwy ailwampio 2 Anedd Cyngor ar gyfer Llety Dros-dro | -10 |
| **Cyfanswm** | **-117** |
| | |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol** | |
| Gofal Cymdeithasol Oedolion - Arbedion i'w cadarnhau | -1,048 |
| Gofal Cymdeithasol Oedolion – Camerau Goruchwilio | -177 |
| Gwasanaethau Plant - Arbedion i'w cadarnhau | -352 |
| **Cyfanswm** | **-1,577** |
| | |
| **Diwylliant** | |
| Ailfodelu Gwasanaeth Llyfrgelloedd | -95 |
| Ymddeoliadau Staff yn Oriel Ynys Môn | -22 |
| Gostyngiadau Gradd ag Oriau Swydd Presennol ar ôl i aelod o staff ymadael | -5 |
| Lleihau Agor Goleudy Ynys Lawd o 7 diwrnod i 6 yn unol a safleodd tymhorol eraill | -4 |
| Gostyngiad yng Nghostau Pennaethiaid Gwasanaeth | -36 |
| Cynhyrchu Incwm - Sesiynnau paranormal dros nos yng Ngharchar Biwmares | -5 |
| Lleihau Cyllideb Hyrwyddiadau Cyffredinol | -4 |
| Lleihau Oriau Agor Carchar Biwmares o 7 diwrnod i 6 yn unol a safleoedd tymhorol eraill | -3 |
| Gostyngiad yng Nghyllideb Cyffredinol Gweinyddiaeth Canolog Hamdden a Threftadaeth | -12 |
| Gostyngiad yn Nosbarthiad Grant Celf i Gyrff Allannol | -5 |
| Lleihau Costau Gwasanaeth Gwybodaeth Teuluoedd | -2 |
| Gostyngiadau Amrywiol o Gyllideb Pennaeth Gwasanaeth a Teithio Canolog | -3 |
| Gostyngiadau Cyffredinol yng Nghyllidebau Cefnogol | -4 |
| **Cyfanswm** | **-200** |
| | |
| **Cyfanswm Cymuned** | **-1,894** |
| | |
| **Cyfanswm Arbedion Arfaethedig** | **-7,416** |
| **Targed Cyfanswm Arbedion** | **-7,750** |
| | |

**ATODIAD C**

| | **Crynodeb Bidiau Twf** | **£'000** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | **Dysgu Gydol Oes** | | |
| 1 | Cyllideb dirprwyedig Ysgol ar gyfer Canolfan Y Bont 2014/2015. | 158 | Cynnydd i'r gyllideb sail – bydd yn cynyddu'r bwlch yn y gyllideb. |
| | | **158** | |
| | | | |
| | **Dirprwy Prif Weithredwr** | | |
| 2 | Adnoddau Dynol - diffyg yn y gyllideb Pennaeth Proffesiwn | 20 | Cyllidir y newid parhaol o'r arian wrth gefn Gwella Perfformiad. |
| 3 | Refeniws a Budd-daliadau – Gostyngiad Grant Gweinyddu Budd-dal Tai | 48 | Cynnydd i'r gyllideb sail – bydd yn cynyddu'r bwlch yn y gyllideb. |
| | | **68** | |
| | | | |
| | **Datblygu Cynaliadwy** | | |
| 4 | Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd – Ffioedd Rheoliadau Adeiladau | 50 | Cynnydd i'r gyllideb sail – bydd yn cynyddu'r bwlch yn y gyllideb. |
| | | **50** | |
| | | | |
| | **Cyfanswm** | **276** | |
| | | | |